Prosiect menter ar y cyd sy'n cael ei ddatblygu gan

RWE

y diweddaraf o'r

# ystafell newyddion

Mai 2024



Fferm Wynt Alltraeth

AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

Mai 2024

# Croeso

Croeso i rifyn y gwanwyn o gylchlythyr prosiect Awel y Môr

Ynddo, cewch y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect, yn ogystal â gwybodaeth am beth mae ein tîm wedi bod yn ei wneud dros y misoedd diwethaf wrth i ni baratoi ar gyfer camau cynnar y gwaith adeiladu ar y tir a fydd yn dechrau'r flwyddyn nesaf.

Rydyn ni hefyd wedi bod yn siarad â Hannah Gandley, myfyriwr PhD Prifysgol Bangor, am y gwaith cyffrous mae hi wedi bod yn ei wneud i fapio gwely'r môr oddi ar arfordir gogledd Cymru a chreu darlun o sut byddai wedi edrych 20,000 o flynyddoedd yn ôl.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm gyda'r manylion cyswllt sydd wedi'u nodi ar y cylchlythyr hwn.

## Cyfleoedd ar gyfer y gadwyn gyflenwi

Os ydych chi'n rhan o gwmni sy'n gweithio ym maes ynni gwynt ar y môr neu os hoffech chi gael gwybod sut gallwch fod yn ymwybodol o'r holl gyfleoedd yng nghadwyn gyflenwi Awel y Môr, dylech ystyried cofrestru ar gyfer Rhaglen Ymgysylltu Tryloywder Cyflenwyr RWE.

Mae'r rhai sydd wedi cofrestru yn rhan o gronfa ddata sydd â swyddogaeth chwilio agored ynghyd â chyflenwyr eraill, ac maent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a chyfleoedd rheolaidd i gwrdd â'n rheolwyr cadwyn gyflenwi.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:
**https://awelymor.cymru/suppliers/?lang=cy**



# Myfyriwr o Brifysgol Bangor yn troi'r cloc yn ôl 20,000 o flynyddoedd gyda chefnogaeth RWE

Mae myfyriwr ôl-raddedig o Gaergybi yn dweud bod data o Awel y Môr a phrosiectau eraill wedi ei galluogi hi a gwyddonwyr eraill i droi'r cloc yn ôl i ddangos sut roedd ardal y môr ger gogledd Cymru yn edrych tua 20,000 o flynyddoedd yn ôl .

Ar hyn o bryd mae Hannah Gandley yn gorffen ei PhD gyda chefnogaeth RWE ym Mhrifysgol Bangor. Mae Hannah wedi defnyddio data a gasglwyd yn ystod arolygon geoffisegol Awel y Môr a phrosiectau gwynt eraill yng ngogledd Cymru i fapio'r nodweddion daearegol ar wyneb gwely'r môr, ac oddi tano, yn y rhan hon o Fôr Iwerddon.

Mae Hannah yn saethwraig achlysurol, yn sgwba-blymwraig ac yn fam i ddau. Dychwelodd i'r brifysgol yn 2019 i wneud gradd Meistr mewn Geowyddorau Morol Cymwysedig ar ôl seibiant gyrfa i fagu ei phlant.

Yna dechreuodd ei PhD, a bydd disgwyl iddi gwblhau'r radd yn ystod y misoedd nesaf.

Dywedodd Hannah: "Rydw i nawr ym misoedd olaf fy PhD: gwneud y rhannau olaf o ddadansoddi data ac yna ysgrifennu dogfen derfynol y traethawd hir, a fydd, gobeithio, yn cael ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

"Fe wnes i orffen fy ngradd israddedig yn ôl yn 2011, ond roedd dod yn ôl i astudio ar gwrs Meistr ym Mangor yn wych.

"Mae'n ganolfan go iawn ar gyfer gwyddorau'r cefnfor; un o'r goreuon yn fyd-eang - mae ganddynt arbenigedd gwych yma ar yr ochr geoffiseg ac maent ar flaen y gad yn y maes hwn."

Mae ymchwil Hannah wedi cynnwys mapio nodweddion y pen dwyreiniol hwn o wely'r Môr Iwerddon yn llawer manylach, gan ddefnyddio data o amrywiaeth eang o ffynonellau gan gynnwys Awel y Môr a phrosiectau eraill i greu darlun o sut roedd y rhanbarth yn edrych tua cyfnod yr uchafbwynt rhewlifol diwethaf, sef y cyfnod pan oedd llenni iâ ar eu mwyaf trwchus rhwng 24,000 a 18,000 o flynyddoedd yn ôl.

Dywedodd Hannah: Rwy'n ceisio egluro sut mae gwely'r môr yn wahanol ar draws ochr ddwyreiniol Môr Iwerddon, o Lerpwl a Wirral, yr holl ffordd i'r gorllewin tua gogledd Ynys Môn. Mae'r ffordd mae rhewlifoedd yn newid tirweddau yn gallu bod yn gymhleth iawn, ond mae'n bwysig i ddatblygwyr ffermydd gwynt; yn enwedig pan fyddant yn gorgyffwrdd ei gilydd.

"Dechreuais gyda chronfa ddata o briodoleddau disgwyliedig gwahanol nodweddion a adawyd ar ôl gan rewlifoedd yn erydu ac




Hannah Gandley, trydydd o'r dde, yn ymweld â Gwynt y Môr fel rhan o daith "Menywod ym Maes Ynni

yn dyddodi gwaddodion, fel cryfder a dwysedd, a sut maen nhw'n ymddwyn, a chyhoeddais bapur cynhadledd arno. Canlyniad arbennig o'r dadansoddiad data hwnnw oedd bod gwaddodion sydd wedi bod yn rhan o rewlif mewn perygl o hylifiad – hynny yw, colli eu cryfder a gweithredu fel hylif, pan fyddant dan straen.

"Gallai hyn o bosibl gynnwys straen a achosir drwy adeiladu prosiectau fel ffermydd gwynt ar wely'r môr, sy'n amlwg yn rhywbeth y mae'n rhaid i beirianwyr prosiect ei ystyried.

"Mae ail ran fy mhrosiect yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r holl ddata geoffisegol rydyn ni wedi'u casglu ynghyd o wahanol ymgyrchoedd arolygu i ailadeiladu'r dirwedd rewlifol honno yn Môr Iwerddon, gan droi'r cloc yn ôl i weld sut roedd llif iâ Môr Iwerddon yn siapio gwely'r môr yn ystod yr oes iâ ddiwethaf."

Mae Hannah yn dweud ei bod hi'n edrych ymlaen at fod yn rhan o daith ynni adnewyddadwy Cymru, ar ôl gallu ymweld â fferm wynt bresennol Gwynt y Môr yn ddiweddar fel rhan o ddigwyddiad Menywod ym Maes Ynni.

Aeth yn ei blaen: "Roedd gweld Gwynt y Môr yn anhygoel! Roedd hi'n braf iawn cwrdd â phobl eraill sy'n ymwneud â thrawsnewid i ynni adnewyddadwy, ac roedd hi'n gyffrous bod yn rhan ohono.

"Roedden ni hefyd yn ffodus iawn o weld haid o ddolffiniaid yn rhoi arddangosfa anhygoel i ni pan oedden ni yno, ac roeddwn i wrth fy modd."




O'r chwith i'r dde: Cadeirydd Gwlad RWE Tom Glover, y Cynghorydd Gill German, y Cynghorydd Jason MacLellan, Carolyn Thomas AS, Uwch Reolwr Cadwyn Gyflenwi RWE Helen K Thomas a'r Cynghorydd Julie Matthews

# Coleg yn agor canolfan beirianneg newydd gyda chymorth RWE

Mae Grŵp Llandrillo-Menai wedi agor ei ganolfan beirianneg £12m newydd yn y Rhyl yn swyddogol, ac mae'r safle bellach yn gartref i brentisiaid technegwyr tyrbinau gwynt RWE.

Yn nodedig, mae gan y ganolfan neuadd bwrpasol ar gyfer gwasanaethu a chynnal a chadw tyrbinau gwynt ar raddfa ddiwydiannol, sy'n dangos yr ymrwymiad i hyrwyddo addysg ac arloesedd ym maes ynni adnewyddadwy.

Mae gan RWE berthynas hirsefydlog â'r coleg, ar ôl sefydlu ei raglen prentisiaid technegwyr gwynt a'i ganolfan genedlaethol ar gyfer hyfforddi prentisiaid yn y cyfleuster yn 2012.

Mae prentisiaid o bob cwr o'r wlad yn cael eu cefnogi drwy'r hyb, ac maent wedi mynd ymlaen i sicrhau swyddi gyda fflyd wynt y cwmni ar y tir ac ar y môr, gan gynnwys ym Mhorthladd Mostyn yng ngogledd Cymru, ac yn fferm wynt fwyaf RWE ar y tir yn y DU, sef Coedwig Clocaenog.

Dywedodd Tom Glover, Cadeirydd Gwlad y DU, RWE: "Bydd ynni adnewyddadwy yn creu miloedd o swyddi dros y blynyddoedd nesaf, a bydd nifer ar gael yn y sectorau gwynt ar y tir ac ar y môr.

"Bydd gweithlu medrus yn hanfodol i gefnogi'r economi werdd sy'n tyfu ac mae prosiectau RWE fel Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr, sef y buddsoddiad mwyaf o bosibl mewn ynni adnewyddadwy yng Nghymru y degawd hwn.

"Mae'r bartneriaeth werthfawr hon gyda Choleg Llandrillo hefyd yn cryfhau gwreiddiau RWE yng Nghymru, lle mae gennym hefyd gyfres o waith datblygu prosiectau gwynt ar y tir sy'n werth cyfanswm o 600MW, gan gynnwys prosiectau cyfagos Coedwig Alwen a Gaerwen. Bydd prentisiaid o'r coleg yn cael cyfle i weithio ar brosiectau RWE ledled y DU a thu hwnt."




Cafodd y safle, sydd wedi cael ei chefnogi gan offer ac arbenigedd RWE, ei hagor gan cyn-Brif Weinidog Mark Drakeford AS



Samplau'n cael eu cymryd gan y contractwr Geotechnics ar draeth Ffrith

# Cwblhau'r gwaith creu tyllau turio ar y traeth

Mae'r contractwr Geotechnics yng Nghaer bellach wedi gorffen profi amodau'r tir ar draeth Ffrith ger y Rhyl, ac mae pob un o'r chwe safle yn ddiogel erbyn hyn.

Roedd y gwaith, sy'n rhan o ymgyrch fwy o ymchwiliadau tir ar hyd llwybr llawn y cebl a'r is-orsaf ar y tir ger Bodelwyddan, yn cynnwys cloddio i lawr bron 30m i brofi amodau lle bydd y cebl tanddaearol yn rhedeg, gan ddefnyddio tyllau turio yn ogystal â dull tebyg arall a elwir yn brofi treiddio côn.

Ar ôl amseru'r rhan hon o'r rhaglen i gyd-fynd â llanw'r gwanwyn, bydd y ffocws nawr yn troi at weddill llwybr y ceblau ar y tir, gyda nifer fach o dimau Geotechnics eraill yn gweithredu gydag offer tebyg yn fewndirol.

Mewn mannau eraill, mae'r paratoadau wedi dechrau ar safle'r is-orsaf ar y tir ar gyfer dechrau'r gwaith adeiladu, gyda ffensys dros dro yn cael eu gosod a threfniadau wedi cael eu gwneud ar gyfer cloddio ffosydd profion archaeolegol.

Bydd hyn yn cynnwys rheoli traffig ar hyd rhan fach o Ffordd Glascoed am tua mis tra bydd y gwaith archaeolegol yn cael ei wneud.

Ar y môr, mae llong Seafox 7 bellach wedi cwblhau ei rhaglen ymchwilio i'r safle ac wedi dychwelyd i'r porthladd.

# Mae Awel y Môr yn darparu cyfle i gyflwyno dosbarthiadau adolygu gwyddoniaeth TGAU ar draws gogledd Cymru

Mae dros 1,000 o fyfyrwyr wedi gallu elwa o ddosbarthiadau adolygu gwyddoniaeth, diolch i bartneriaeth rhwng Awel y Môr a Sbarduno, sef cyflenwr addysgol arloesol lleol o ogledd Cymru, a'i sefydliad nid-er-elw: Inspire by Sbarduno CIC.

Cyflwynwyd dros 36 o sesiynau yng ngogledd Cymru yn ystod gwyliau'r ysgol ym mis Mawrth a mis Mai. Darparwyd gwersi adolygu mewn meysydd pwnc mathemateg, cemeg a ffiseg TGAU, a chawsant eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Roedd y sesiynau ar gael i ddysgwyr o alluoedd amrywiol, gan gynnwys yr Haen Uwch a Sylfaen, ac roeddent yn galluogi'r dysgwyr i wella technegau arholiad ac ailedrych ar rai pynciau heriol gydag athrawon lleol profiadol, pob un wedi'i integreiddio'n ofalus i ddarparu cymorth ychwanegol i ysgolion lleol o ystyried pwysau'r maes llafur.

Canhaliwyd y dosbarthiadau, a ddatblygwyd fel rhaglen beilot ac a gynigiwyd fel rhan o strategaeth sgiliau a chyflogaeth Awel y Môr ar y cyd â Sbarduno, gan Grŵp Llandrillo-Menai. Roeddent yn galluogi myfyrwyr i weld amgylcheddau dysgu'r coleg a defnyddio eu byrddau gwyn a'u taflunyddion rhyngweithiol.

Cafodd Sbarduno, y darparwr gwasanaeth ar gyfer y sesiynau adolygu hyn, ei sefydlu yng Nghymru yn 2019, ac mae wedi darparu gweithdai i dros 10,000 o ddisgyblion mewn ysgolion a chymunedau ledled Cymru dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae eu hamcanion yn cynnwys hyrwyddo addysg pobl ifanc mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, y Celfyddydau a Mathemateg (STEAM), i ysbrydoli pobl ifanc i ystyried gyrfa mewn STEAM a meithrin eu diddordeb mewn gwyddoniaeth.

Mae eu partneriaethau eraill yn cynnwys yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Cyngor Gwynedd, Gwasanaethau Ieuenctid Ynys Môn, Grŵp Llandrillo-Menai; a digwyddiadau neu weithdai gyda'r Grid Cenedlaethol a Magnox dros y misoedd nesaf.






Tîm RWE yng nghynhadledd Ynni Morol Cymru eleni

# Intern Awel y Môr yn dod i adnabod diwydiant ynni morol Cymru

I gefnogi'r gwaith o ddatblygu buddsoddiad mwyaf Cymru mewn cynhyrchu ynni ar y môr y degawd hwn, mae tîm Awel y Môr yn mynd i gynhadledd diwydiant Ynni Môr Cymru bob blwyddyn. Cafodd y gynhadledd ei chynnal yn Abertawe eleni.

Ymhlith y rhai a oedd yn bresennol roedd intern Awel y Môr, Isobel Emery, sydd wedi treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm cydsynio ar ran allweddol o daith y prosiect.

Dywedodd Isobel: "Roedd hwn yn gyfle gwych i rwydweithio a chwrdd â phobl a chwmnïau eraill sy'n ymwneud â'r diwydiant ynni môr yng Nghymru. Roedd y gynhadledd yn gyfle i bobl a chwmnïau ar draws gwahanol sectorau archwilio pynciau allweddol a chyfleoedd yn y diwydiant yn y dyfodol.

"Roedd rhai trafodaethau diddorol iawn yn ystod sesiynau'r panel am bynciau fel sgiliau, y gadwyn gyflenwi a heriau o ran y grid a chydsynio.

"Roedd hefyd yn wych clywed am wahanol fentrau yn y diwydiant, er enghraifft Cynghrair SPARC (Pŵer Cynaliadwy, Ynni Adnewyddadwy ac Adeiladu) y mae RWE yn aelod ohono. Nod SPARC yw hyrwyddo amrywiaeth o ran rhywedd yn y diwydiannau hyn lle mae wedi'i leoli, yn Sir Benfro.

"Fel intern ar ddechrau fy ngyrfa, roedd yn ddefnyddiol iawn mynd i'r digwyddiad hwn gan ei fod yn dangos safbwynt y diwydiant cyfan a'r gwahanol gyfleoedd sydd ar gael yng Nghymru."

# Amserlen gweithgarwch ar gyfer 2024

## Tachwedd 2023 – Medi 2024

Cam un gorfenedig archwiliadau i Safleoedd ar y Môr. Rhagor o arolygon pellach disgwyledig drwy gydol y flwyddyn.

## Mawrth - Gorffennaf 2024

Archwiliadau ar y Tir (tyllau turio) ar hyd y llwybr ceblau i'r traeth ac yn yr is-orsaf.

## Mai – Mehefin 2024

Ffosydd prawf ar gyfer ymchwiliad archaeolegol (is-orsaf ar y tir yn unig).

## Gorffennaf - Medi 2024 (dangosol)

Ffensio ar gyfer madfallod dŵr cribog, a'u symud i safle newydd (is-orsaf ar y tir yn unig).

Mae pob dyddiad yn ddangosol ac mae'n bosibl y byddant yn newid

0800 197 8232

awelymor@rwe.com

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm